

CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN

LAMPETER TOWN COUNCIL

RHEOLAU SEFYDLOG

- 1. RHEOLAU SEFYDLOG YN GYFFREDINOL**
- 2. SWYDDOG PRIODOL**
- 3. SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL**
- 4. CYFARFODYDD**
- 5. CYFARFODYDD CYFFREDIN Y CYNGOR**
- 6. PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU**
- 7. CYFARFODYDD ANGHYFFREDIN**
- 8. RHEOLAU TRAFODAETH**
- 9. PENDERFYNIADAU BLAENOROL**
- 10. YMDDYGIAD AFREOLUS**
- 11. PLEIDLEISIO AR APWYNTIADAU**
- 12. CYNIGIADAU MEWN CYFARFOD Y MAE ANGEN RHYBUDD YSGRIFENEDIG AR EU CYFER**
- 13. CYNIGIADAU MEWN CYFARFOD NAD OES ANGEN RHYBUDD YSGRIFENEDIG AR EU CYFER**
- 14. YMDRIN GWYBODAETH**
- 15. COFNODION DRAFFT**
- 16. COD YMDDYGIAD**
- 17. CWYNION COD YMDDYGIAD**
- 18. CYFRIFON A SAFONAU CYFRIFO**
- 19. RHEOLAETH ARIANNOL A CHAFFAEL**
- 20. TRAFOD MATERION STAFF**
- 21. DYLETSWYDD I DDARPARU GWYBODAETH**
- 22. DYLETSWYDDAU DAN DDEDDFWRIAETH DATA**
- 23. CYSYLLTIADAU GYDA'R WASG / CYFRYNGAU**
- 24. CWBLHAU A SELIO GWEITHREDODD CYFREITHIOL**
- 25. CYFATHREBU GYDA CHYNGHORWYR**
- 26. CYFYNGIADAU AR WEITHGAREDDAU CYNGHORWYR**

1. RHEOLAU SEFYDLOG YN GYFFREDINOL

- a. Dehonglir cyfeiriadau at gynghorwyr yn y rheolau hyn fel cyfeiriadau at gynghorwyr gwrywaidd a benywaidd yn ddiwahân a dylid ystyried y geiriau “ef / hi” i fod yn ymgynghoriol.
- b. Gellir atal pob neu unrhyw ran o reol sefydlog, ac eithrio un sy'n ymgorffori gofynion gorfodol statudol neu gyfreithiol, trwy benderfyniad mewn perthynas ag eitem ar agenda cyfarfod. Dangosir rheolau sefydlog sy'n ymgorffori gofynion gorfodol statudol neu gyfreithiol mewn print **bras**.
- c. Caiff cynigiad i ychwanegu, amrywio neu ddiddymu'n barhaol un neu ragor o reolau sefydlog y Cyngor nad ydynt yn ymgorffori gofynion gorfodol statudol neu gyfreithiol ei gyflwyno mewn cynigiad arbennig trwy roi rhybudd ysgrifenedig wedi ei arwyddo gan o leiaf 3 cynghorydd i'r Swyddog Priodol yn unol â rheol sefydlog 12.
- d. Rhoddir copi o reolau sefydlog y Cyngor i bob cynghorydd cyn gynted a phosib.
- e. Bydd penderfyniad cadeirydd y cyfarfod wrth weithredu'r rheolau sefydlog yn derfynol.

2. SWYDDOG PRIODOL

- a. Y Swyddog Priodol fydd naill ai'r (i) Clerc neu (ii) ba aelod(au) arall o'r staff a enwebir gan y Cyngor i ymgymryd â gwaith y Swyddog Priodol pan fydd y Swyddog Priodol yn absennol.
- b. Bydd y Swyddog Priodol :
 - i. **o leiaf tri diwrnod llawn cyn cyfarfod o'r Cyngor neu bwyllgor** neu is-bwyllgor:
 - yn cyflwyno i gynghorwyr naill ai'n bersonol neu trwy 'r post yn eu cartrefi wŷs neu ebost wedi ei lofnodi yn cadarnhau'r amser, y dyddiad, y lleoliad a'r agenda; ac
 - yn gosod rhybudd cyhoeddus o'r amser, y lleoliad a'r agenda mewn man amlwg (ar yr amod fod rhybudd cyhoeddus gyda'r agenda ar gyfer cyfarfod anghyffredin o'r Cyngor a gynullwyd gan gynghorwyr wedi ei lofnodi ganddynt) a chyhoeddi rhybudd

electronig o'r amser a'r lleoliad a, chyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, unrhyw ddogfennau perthnasol i'r materion sydd i'w trafod yn y cyfarfod oni bai eu bod yn ymwneud a materion sydd yn debygol o gael eu trafod yn breifat neu os byddai eu datgelu'n groes i unrhyw ddeddfwriaeth.

Gweler rheol sefydlog 4(b) am ystyr dyddiau llawn ar gyfer cyfarfod y Cyngor llawn a rheol sefydlog 4(c) am ystyr dyddiau llawn ar gyfer cyfarfod pwyllgor;

- ii. yn ddarostyngedig i reol sefydlog 12, yn cynnwys ar yr agenda pob cynigiad a dderbyniwyd oni bai fod cynghorydd wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig o leiaf 4 niwrnod cyn y cyfarfod yn cadarnhau ei fod yn ei dynnu'n ôl;
- iii. **yn cynnull cyfarfod o'r Cyngor ar gyfer ethol Maer newydd o ganlyniad i'w swydd ddod yn wag;**
- iv. **yn galluogi etholwyr llywodraeth leol i archwilio'r llyfr cofnodion;**
- v. **yn derbyn a chadw copiau o is-ddeddfau a wnaed gan awdurdodau lleol eraill;**
- vi. yn cadw datganiadau derbyn swydd gan gynghorwyr;
- vii. yn cadw copi o gofrestr buddiannau pob cynghorydd;
- viii. yn cynorthwyo i ymateb i geisiadau a wnaed dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth a hawliau a weithredir dan ddeddfwriaeth gwarchod data yn unol â pholisiau a threfniadau perthnasol y Cyngor;
- ix. yn derbyn ac anfon gohebiaeth gyffredinol a hysbysiadau ar ran y Cyngor ac eithrio pan fod penderfyniad i'r gwrthwyneb;
- x. yn cynorthwyo i drefnu, cadw, galluogi argaeledd, diogelu a dinistrio unrhyw wybodaeth a gedwir gan y Cyngor ar bapur neu ar ffurf electronig yn ddarostyngedig i ofynion rhyddid gwybodaeth a deddfwriaeth gwarchod data neu unrhyw ofynion dilys (e.e. Deddf Cyfyngiadau Achosion 1980);

- xi. yn trefnu i weithredoedd cyfreithiol gael eu llofnodi a'u tystio;
gweler rheol sefydlog 24 hefyd;
- xii. yn trefnu neu sicrhau fod unrhyw daliadau sydd i'w gwneud gan y Cyngor yn cael eu hawdurdodi, eu caniatáu a'u cyfarwyddo'n brydlon yn unol â'r rheoliadau ariannol;
- xiii. yn cyfeirio cais cynllunio a dderbyniwyd gan y Cyngor i gyfarfod y Cyngor llawn os oes cyfarfod llawn i'w gynnal cyn y dyddiad cau ar gyfer ymatebion, neu i'r Maer (neu yn ei absenoldeb ef / hi i'r Dirprwy Faer) os nad oes cyfarfod i'w gynnal o fewn dau ddiwrnod gwaith wedi derbyn y cais er mwyn trefnu cyfarfod Pwyllgor Cynllunio neu gyfarfod anghyffredin os yw natur y cais cynllunio'n hawlio hynny; ac
- xiv. yn trefnu argaeledd gwybodaeth am y Cyngor trwy'r cynllun cyhoeddusrwydd.

3. SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL

- a. Bydd y Cyngor yn apwyntio aelod(au) staff addas i ymgymryd â gwaith y Swyddog Ariannol Cyfrifol pan fydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn absennol.

4. CYFARFODYDD

- a. **Ni fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn adeiladau sydd, adeg y cyfarfod, yn cael eu defnyddio i gyflenwi alcohol oni bai nad oes unrhyw adeiladau eraill ar gael yn ddi-dâl neu am gost rhesymol.**
- b. **Wrth gyfrif y tri diwrnod llawn ar gyfer rhoi rhybudd am gyfarfod i Gynghorwyr a'r cyhoedd, ni fydd diwrnod y cyflwynir y rhybudd, diwrnod y cyfarfod, dydd Sul, un o ddyddiadau gwyliau'r Nadolig, un o ddyddiau gwyliau'r Pasg neu ŵyl banc neu ddiwrnod a glustnodwyd ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus yn cyfrif.**
- c. **Wrth gyfrif y tri diwrnod llawn ar gyfer rhoi rhybudd cyhoeddus**

am gyfarfod, ni fydd y diwrnod y cyflwynir y rhybudd na diwrnod y cyfarfod yn cyfrif oni bai y cynullir y cyfarfod ar lai o rybudd.

- d. Ni fydd y cyfnod o amser a ganiateir i'r cyhoedd i gymryd rhan mewn cyfarfod yn unol a rheol sefydlog 4(e) yn fwy nac 20 munud oni bai fod cadeirydd y cyfarfod yn cyfarwyddo'n wahanol.
- e. Yn amodol ar reol sefydlog 4(f) ni chaiff aelod o'r cyhoedd siarad am fwy nac 20 munud.
- f. Yn unol â rheol sefydlog 4(e) ni chaniateir cwestiwn i hawlio ymateb yn y cyfarfod nac i gychwyn trafodaeth ar y cwestiwn. Gall y cadeirydd y cyfarfod gyfarwyddo y dylid rhoi ateb llafar neu ysgrifenedig.
- g. Bydd unrhyw un sy'n siarad mewn cyfarfod yn cyfeirio ei sylwadau at gadeirydd y cyfarfod.
- h. Caniateir un person yn unig i siarad ar unrhyw adeg. Os bydd mwy nac un yn dymuno siarad, bydd cadeirydd y cyfarfod yn penderfynu ar drefn y siaradwyr.
- i. **Ni chaniateir tynnu lluniau, recordio, darlledu na throsglwyddo trafodion cyfarfod trwy unrhyw ddull neu fodd heb gael caniatâd ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw.**
- j. **Darperir cyfleusterau rhesymol ar gyfer y wasg er mwyn cymryd eu hadroddiad o'r cyfarfod neu'r rhan o'r cyfarfod y mae ganddynt hawl i fod yn bresennol ynddo.**
- k. Yn amodol ar reolau sefydlog sy'n nodi i'r gwrthwyneb, gall unrhyw beth a awdurdodwyd neu y mae angen iddo gael ei wneud gan, neu i, neu yng ngŵydd y Maer gael ei wneud yn absenoldeb y Maer gan, neu i, neu yng ngŵydd Dirprwy Faer y Cyngor.
- l. **Bydd y Maer, os yn bresennol, yn llywyddu cyfarfodydd y Cyngor llawn. Os yw'r Maer yn absennol o gyfarfod y Cyngor**

llawn, bydd y Dirprwy Faer, os yn bresennol, yn llywyddu. Os yw'r Maer a'r Dirprwy Faer yn absennol o gyfarfod y Cyngor llawn, bydd cynghorydd a ddewisir gan y cynghorwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod yn llywyddu'r cyfarfod.

- m. Yn amodol ar bresenoldeb cworwm, bydd holl faterion mewn cyfarfod yn cael eu penderfynu trwy fwyafrif y cynghorwyr sy'n bresennol ac yn pleidleisio arnynt.**
- n. Gall y cadeirydd roi pleidlais wreiddiol ar unrhyw fater y cynhelir pleidlais arno, ac os yw nifer y pleidleisiau dros ac yn erbyn yn gyfartal, gall ddefnyddio ei bleidlais / phleidlais fwrw p'un ai defnyddiodd ei bleidlais / phleidlais wreiddiol neu beidio.**

Gweler rheolau sefydlog 5(h) ac (i) am y rheolau gwahanol ar gyfer ethol y Maer yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor.

- o. Oni bai fod rheolau sefydlog yn nodi'n wahanol, pleidleisir ar gwestiwn trwy godi dwylo. Ar gais cynghorydd, bydd y pleidleisio ar unrhyw gwestiwn yn cael ei gofnodi er mwyn dangos a bleidleisiodd pob cynghorydd yn bresennol ac a bleidleisiodd pob cynghorydd dros neu yn erbyn y cyfryw gwestiwn. Gwneir cais o'r fath cyn symud ymlaen at y mater nesaf ar yr agenda.**
- p. Bydd cofnodion cyfarfod yn record gywir o'r canlynol:**
 - i. lleoliad ac amser y cyfarfod;**
 - ii. enwau'r cynghorwyr sy'n bresennol ac enwau'r cynghorwyr sy'n absennol;**
 - ii. buddiannau a ddatganwyd gan gynghorwyr ac eraill sydd ganddynt hawliau pleidleisio;**
 - iv. unrhyw ollyngiadau a roddwyd i gynghorwyr neu eraill sydd ganddynt hawliau pleidleisio;**
 - v. a wnaeth cynghorydd neu rywun a chanddo hawliau pleidleisio adael y cyfarfod pan drafodwyd materion yr oedd ganddynt fuddiannau ynddynt;**
 - vi. a oedd sesiwn i'r cyhoedd gymryd rhan; a'r**
 - vii. penderfyniadau a wnaed.**
- q. Bydd cynghorydd neu rywun a chanddo hawliau pleidleisio yn ddarostyngedig i ddyletswyddau'r cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor os oes ganddo ef neu hi fuddiant**

personol neu niweidiol mewn mater a drafodir mewn cyfarfod sydd yn cyfyngu neu osod terfyn ar ei hawl ef / hi i gymryd rhan.

- r. **Ni chaiff unrhyw fusnes ei drafod mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn oni bai fod o leiaf traean o holl aelodau'r Cyngor yn bresennol ac ni fydd cworwm cyfarfod yn llai na 3 o dan unrhyw amgylchiadau.**

Gweler rheol sefydlog 6(d)(viii) parthed cworwm pwyllgor neu is-bwyllgor.

- s. **Os nad oes cworwm mewn cyfarfod neu os yw'r nifer sy'n bresennol yn disgyn dan y cworwm yn ystod y cyfarfod, deuir a'r cyfarfod i ben. Caiff y busnes sydd ar yr agenda ei ohirio hyd cyfarfod arall.**

- t. Ni fydd cyfarfod yn parhau'n hwy na 3 awr oni bai fod y mwyafrif o'r cynghorwyr sy'n bresennol yn cytuno.

- u. Gall unrhyw un sy'n bresennol mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn, a ganddo hawl i siarad, wneud hynny yn Saesneg neu yn y Gymraeg. Darperir adnoddau cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg. Darperir cofnodion, agendau a dogfennau eraill a ddynodir yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Cyngor yn Saesneg ac yn y Gymraeg.

5. **CYFARFODYDD ARFEROL Y CYNGOR**

- a. **Mewn blwyddyn etholiad, cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ar neu o fewn 14 diwrnod yn dilyn y diwrnod pan mae'r Cynghorwyr newydd a etholwyd yn cychwyn ar eu gwaith.**
- b. **Mewn blwyddyn nad yw'n flwyddyn etholiad, cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ar ba ddyddiad bynnag ym mis Mai a ddewisir gan y Cyngor.**
- c. **Os na bennwyd unrhyw amser arall, cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor am 7.30 y.h.**
- d. **Yn ogystal â Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol, gellir cynnal unrhyw nifer o gyfarfodydd cyffredin eraill yn ystod y flwyddyn**

ar ba ddyddiadau ac amserau bynnag y mae'r Cyngor yn eu penderfynu.

- e. **Ethol y Maer a Dirprwy Faer y Cyngor fydd y mater cyntaf a benderfynir yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a bydd y naill yn gweithredu fel Cadeirydd a'r llall fel Is-gadeirydd y Cyngor.**
- f. **Bydd y Maer, oni bai ei bod hi / ef wedi ymddiswyddo neu wedi cael ei (h)anghymwyso, yn parhau yn ei swydd ac yn llywyddu yn y cyfarfod blynyddol hyd nes etholir ei (h)olynydd yng nghyfarfod blynyddol nesaf y Cyngor.**
- g. **Bydd y Dirprwy Faer, oni bai ei bod hi / ef wedi ymddiswyddo neu wedi cael ei (h)anghymwyso, yn parhau yn ei swydd ac yn llywyddu yn y cyfarfod blynyddol tan yn union wedi ethol y Maer yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf y Cyngor.**
- h. **Mewn blwyddyn etholiad, os na chafodd Maer presennol y Cyngor ei (h)ail-ethol yn aelod o'r Cyngor, bydd yn llywyddu yn y cyfarfod blynyddol hyd nes yr etholwyd Maer y Cyngor i'w (d)dilyn. Ni fydd gan Faer presennol y Cyngor bleidlais wreiddiol wrth ethol y Maer newydd ond rhaid iddo / iddi ddefnydd pleidlais fwrw os yw nifer y pleidleisiau'n gyfartal.**
- i. **Mewn blwyddyn etholiad, os cafodd Maer presennol y Cyngor ei (h)ail-ethol yn aelod o'r Cyngor, bydd yn llywyddu yn y cyfarfod blynyddol hyd nes yr etholwyd y Maer newydd. Gall ddefnyddio pleidlais wreiddiol wrth ethol y Maer newydd y Cyngor a rhaid iddo / iddi ddefnyddio pleidlais fwrw os yw nifer y pleidleisiau'n gyfartal.**
- j. **Tra etholir y Maer a'r Dirprwy Faer yn ffurfiol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, bydd y Cyngor yn enwebu ymgeisydd ar gyfer y naill swydd a'r llall ym mis Chwefror.**
- k. **Cynhelir Seremoni Urddo'r Maer yn flynyddol. Mewn blwyddyn etholiad, cynhelir y seremoni cyn gynted â phosib ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Mewn blwyddyn pan nad oes etholiad, cynhelir y seremoni yn ystod mis Mai ar y dyddiad a gytunwyd gan y Cyngor.**
- l. **Yn ystod Seremoni Urddo'r Maer, bydd y Maer sy'n ymddeol yn rhoi**

adolygiad o waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn aeth heibio ac yn cyflwyno'r Maer newydd i'r swydd. Anerchir y Cyfarfod gan y Maer newydd i'r swydd a bydd ef / hi yn atgyfnerthu'r datganiadau derbyn swydd ac yn cyflwyno'r Dirprwy Faer. Bydd y Maer newydd a'r Dirprwy Faer newydd yn derbyn gwisg a chadwyn y swydd. Gellir cynnal pleidlais symbolaidd i ethol y Maer ond ni fydd yn dwyn effaith o ran sylwedd.

- m. Wedi ethol Maer a Dirprwy Faer y Cyngor yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor bydd y busnes a drafodir yn cynnwys:
- i. **Mewn blwyddyn etholiad, y Maer a'r cynghorwyr yn cyflwyno eu ffurflenni derbyn swydd oni bai fod y Cyngor yn penderfynu y gwneir hyn ar ddyddiad hwyrach. Mewn blwyddyn nad sydd yn flwyddyn etholiad, y Maer yn cyflwyno ei ffurflen derbyn swydd oni bai fod y Cyngor yn penderfynu y gwneir hyn ar ddyddiad hwyrach.**
 - ii. Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor;
 - iii. Derbyn cofnodion y pwyllgor diwethaf;
 - iv. Ystyried argymhellion a wnaed gan bwyllgor;
 - v. Adolygu trefniadau dirprwyo i bwyllgorau, is-bwyllgorau, staff ac awdurdodau lleol eraill;
 - vi. Adolygu cylch gorchwyl pwyllgorau;
 - vii. Penodi aelodau i bwyllgorau sydd eisoes yn bodoli;
 - viii. Penodi unrhyw bwyllgorau newydd yn unol â rheol sefydlog 4;
 - ix. Adolygu a mabwysiadu rheolau sefydlog a rheolau ariannol priodol;
 - x. Adolygu trefniadau (gan gynnwys unrhyw gytundebau cyfreithiol) gydag awdurdodau lleol eraill, sefydliadau di-elw a busnesau;
 - xi. Adolygu cynrychiolaeth ar neu waith gyda chyrff allanol a threfniadau ar gyfer adrodd yn ôl;

- xii. Adolygu rhestr o dir ac asedau gan gynnwys adeiladau ac offer swyddfa;
- xiii. Cadarnhau trefniadau ar gyfer gwarant yswiriant ar gyfer holl risgiau yswiriedig;
- xiv. Adolygu tanysgrifiadau'r Cyngor a / neu weithwyr i gyrff eraill;
- xv. Adolygu trefniadau cwynion y Cyngor;
- xvi. Adolygu polisiau, trefniadau ac arferion y Cyngor gogyfer a'i dyletswyddau dan y ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth a gwarchod data;
(*gweler hefyd rheoliadau sefydlog 14, 21 a 22.*)
- xviii. Adolygu polisi'r Cyngor ar gyfer delio â'r wasg / cyfryngau;
- xix. Adolygu gwariant y Cyngor dan gymal 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 neu'r pwerau lles;
- xx. Penodi dyddiad, amser a lleoliad cyfarfodydd cyffredin y Cyngor llawn i fyny at ac yn cynnwys cyfarfod blynyddol nesaf y Cyngor;

6. PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

- a. Oni bai fod y Cyngor y penderfynu'r gwrthwyneb, gall pob pwyllgor benodi is-bwyllgor y bydd ei gylch gorchwyl a'i aelodau yn cael eu penderfynu trwy benderfyniad y pwyllgor;**
- b. Gall aelodau pwyllgor gynnwys unigolion nad ydynt yn gynghorwyr oni bai ei fod yn bwyllgor sy'n rheoleiddio a rheoli materion ariannol y Cyngor;**
- c. Oni bai fod y Cyngor yn penderfynu'r gwrthwyneb, gall holl aelodau pwyllgor neu is-bwyllgor ymgynghorol fod yn unigolion nad ydynt yn gynghorwyr;**
- d. Gall y Cyngor benodi pwyllgorau sefydlog neu bwyllgorau eraill fel y bo angen, a;
 - i. bydd yn penderfynu eu cylch gorchwyl;
 - ii. bydd yn penderfynu nifer ac amser cyfarfodydd cyffredin

pwyllgor sefydlog hyd at ddyddiad cyfarfod blynyddol nesaf y Cyngor;

- iii. bydd yn caniatáu i bwyllgor benderfynu nifer ac amser y cyfarfodydd hynny nad ydynt yn gyfarfodydd cyffredin;
- iv. yn amodol ar reolau sefydlog 6(b) a (c) bydd yn penodi a phennu cyfnod gwasanaeth aelodau'r fath bwyllgor;
- v. yn amodol ar reolau sefydlog 6(b) a (c) bydd yn penodi a phennu cyfnod gwasanaeth eilydd aelodau o bwyllgor a fydd yn cymryd lle aelodau arferol mewn cyfarfod o bwyllgor os yw aelodau arferol y pwyllgor wedi cadarnhau i'r Swyddog Priodol 3 diwrnod cyn y cyfarfod eu bod yn methu bod yn bresennol;
- vi. wedi penodi aelodau pwyllgor sefydlog, bydd yn penodi cadeirydd y pwyllgor sefydlog;
- vii. bydd yn caniatáu i bwyllgor nad yw'n bwyllgor sefydlog i benodi ei gadeirydd ei hun yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgor;
- viii. bydd yn penderfynu lle, gofynion hysbysiad a chworwm cyfarfod pwyllgor neu is-bwyllgor na fydd, yn y naill achos na'r llall, yn llai na thri;
- ix. bydd yn penderfynu a chaniateir y cyhoedd i gymryd rhan yng nghyfarfod y pwyllgor;
- x. bydd yn penderfynu a chaniateir y cyhoedd a'r wasg i fynychu cyfarfodydd is-bwyllgor a hefyd unrhyw ofynion hysbysiad cyhoeddus ymlaen llaw ar gyfer cyfarfodydd is-bwyllgor;
- xi. bydd yn penderfynu a chaniateir i'r cyhoedd gymryd rhan mewn cyfarfod is-bwyllgor y caniateir iddynt i'w fynychu;
- xii. gall ddiddymu pwyllgor neu is-bwyllgor.

- e. Gall unrhyw un sy'n mynychu cyfarfod pwyllgor neu is-bwyllgor, a ganddo hawl i siarad, wneud hynny naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Ni ddarperir adnoddau cyfieithu ar y pryd, ond rhoddir cyfieithiad anffurfiol o'r Gymraeg i'r Saesneg. Bydd Cofnodion, agendaau a dogfennau eraill a ddynodir yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Cyngor ar gael yn y Saesneg a'r Gymraeg.

**7. CYFARFODYDD ANGHYFFREDIN Y CYNGOR, PWYLLGORAU
AC IS-BWYLLGORAU**

- a. **Gall y Maer gynnull cyfarfod anghyffredin o'r Cyngor ar unrhyw adeg;**
- b. **Os nad yw'r Maer yn cynnull cyfarfod anghyffredin o'r Cyngor neu os yw'n gwrthod gwneud hynny o fewn 7 niwrnod wedi derbyn cais ysgrifenedig i wneud hynny gan ddau gynghorydd, gall unrhyw ddau gynghorydd gynnull cyfarfod anghyffredin o'r Cyngor. Rhaid i'r hysbysiad cyhoeddus statudol o amser, lleoliad ac agenda'r fath gyfarfod gael ei lofnodi gan y ddau gynghorydd.**
- c. Gall Cadeirydd pwyllgor (neu is-bwyllgor) gynnull cyfarfod anghyffredin o'r pwyllgor (neu'r is-bwyllgor) ar unrhyw adeg.
- d. Os nad yw cadeirydd pwyllgor (neu is-bwyllgor) yn cynnull cyfarfod anghyffredin o fewn 7 niwrnod wedi derbyn cais i wneud hynny gan ddau aelod o'r pwyllgor (neu is-bwyllgor) gall unrhyw ddau aelod o'r pwyllgor (neu'r is-bwyllgor) gynnull cyfarfod anghyffredin o'r pwyllgor (neu'r is-bwyllgor.)

8. RHEOLAU TRAFODAETH

- a. Bydd cynigion a gynhwyswyd yn yr agenda yn cael eu hystyried yn y drefn yr ymddangosant ar yr agenda oni bai fod y drefn yn cael ei newid yn ôl cyfarwyddyd cadeirydd y cyfarfod.
- b. Ni fydd cynigiad (gan gynnwys gwelliant) yn cael ei ystyried onid yw wedi cael ei gynnig a'i eilio.
- c. Gall cadeirydd y cyfarfod ystyried fod cynigiad a gynhwyswyd yn yr agenda wedi ei dynnu yn ôl os na chafodd ei gynnig yn ffurfiol gan y cynghorydd a'i cyflwynodd.
- d. Os bydd cynigiad (gan gynnwys gwelliant) wedi cael ei eilio, dim ond trwy gydsyniad yr eiliwr a'r cyfarfod y gall y cyflwynydd ei dynnu yn ôl.
- e. Cynigiad i adael allan neu i ychwanegu geiriau yw gwelliant. Rhaid iddo beidio nacau'r cynigiad gwreiddiol.
- f. Os yw gwelliant i'r cynigiad gwreiddiol yn cael ei gario, bydd y cynigiad gwreiddiol (wedi'i wella) yn disodli'r cynigiad gwreiddiol a

hwnnw fydd y cynigiad gweithredol y gellir cyflwyno unrhyw welliant neu welliannau arall iddo.

- g. Gall cynghorydd gyflwyno gwelliannau i'w gynigiad ei hun gyda chytundeb y cyfarfod. Os yw cynigiad eisoes wedi cael ei eilio, rhaid cael cydsyniad yr eilydd a'r cyfarfod er mwyn cynnig gwelliant iddo.
- h. Os bydd mwy nag un gwelliant i gynigiad gwreiddiol neu weithredol, caiff y gwelliannau eu hystyried yn y drefn a benodir gan gadeirydd y cyfarfod.
- i. Yn amodol ar reol sefydlog 8(j), dim ond un gwelliant gaiff ei gynnig a'i drafod ar y tro, a hynny yn y drefn a benodir gan gadeirydd y cyfarfod.
- j. Gellir trafod un gwelliant neu ragor gyda'i gilydd os yw cadeirydd y cyfarfod yn ystyried hynny'n fuddiol ond pleidleisir ar bob gwelliant ar wahân.
- k. Pan gaiff cyfres o welliannau i gynigiad gwreiddiol eu cario, bydd gan gynigydd y cynigiad gwreiddiol yr hawl i ymateb naill ai ar ddiwedd y drafodaeth ar y gwelliant cyntaf neu ar ddiwedd y drafodaeth ar y cynigiad gweithredol terfynol yn union cyn iddo gael ei roi i bleidlais.
- l. Oni chaniateir yn wahanol gan gadeirydd y cyfarfod, caiff cynghorydd siarad unwaith yn unig mewn trafodaeth ar gynigiad ac eithrio:-
 - i. i siarad ar welliant a gynigiwyd gan gynghorydd arall;
 - ii. i gynnig neu siarad ar welliant arall os cafodd y cynigiad ei wella oddi ar y tro diwethaf iddo siarad;
 - iii. i wneud pwynt o drefn;
 - iv. i roi esboniad personol; neu
 - v. yn unol â hawl i ymateb.
- m. Yn ystod trafodaeth ar gynigiad, ni all cynghorydd dorri ar ei draws ond ar bwynt o drefn neu esboniad personol ac yna bydd y cynghorydd y torrwyd ar ei draws yn rhoi'r gorau i siarad. Bydd cynghorydd sy'n gwneud pwynt o drefn yn cyfeirio at y rheol sefydlog y mae'n credu iddi gael ei thorri neu'n rhoi manylion y diffyg arall a wêl yn nhrafodaethau'r cyfarfod.

- n. Bydd cadeirydd y cyfarfod yn penderfynu ar bwynt o drefn a bydd ei benderfyniad yn derfynol.
- o. Pan fydd cynigiad yn cael ei drafod ni ellir cyflwyno unrhyw gynigiad arall ac eithrio cynigiad:-
- i. i wella cynigiad;
 - ii. i symud ymlaen at y busnes nesaf;
 - ii. i ohirio'r drafodaeth;
 - iv. i roi'r cynigiad i bleidlais;
 - v. i ofyn i rywun i fod yn dawel neu i adael y cyfarfod;
 - vi. i gyfeirio cynigiad at bwyllgor neu is-bwyllgor i'w ystyried;
 - vii. i eithrio'r cyhoedd neu'r wasg;
 - viii. i ohirio'r cyfarfod; neu
 - ix. i atal unrhyw reol neu reolau sefydlog ac eithrio'r rhai sy'n adlewyrchu gofynion gorfodol statudol neu gyfreithiol.
- p. Cyn y caiff cynigiad gwreiddiol neu weithredol ei roi i bleidlais, rhaid i gadeirydd y cyfarfod gael ei fodloni bod y cynigiad wedi cael ei drafod yn ddigonol a bod cyflwynydd y cynigiad sydd dan drafodaeth wedi defnyddio neu ymollwng ei hawl i ymateb.
- q. Ac eithrio cynigion a gyflwynwyd dan reol sefydlog 8(o), bydd cyfraniadau neu areithiau cynghorydd yn ymwneud â'r cynigiad sydd dan drafodaeth yn unig ac yn gyfyngedig i 2 funud o ran hyd oni bai fod cadeirydd y cyfarfod yn caniatáu.

9. PENDERFYNIADAU BLAENOROL

- a. Ni ellir dadwneud penderfyniad o fewn 6 mis ac eithrio trwy gynigiad arbennig y mae hysbysiad ysgrifenedig ohono gan o leiaf 5 cynghorydd wedi cael ei roi i'r Swyddog Priodol yn unol â rheol sefydlog 12, neu trwy gynigiad a gyflwynwyd yn rhinwedd argymhelliad pwyllgor neu is-bwyllgor;
- b. Pan ymdriniwyd â chynnig yn rhinwedd rheol sefydlog 9(a) ni ellir

cyflwyno cynigiad tebyg o fewn 6 mis arall.

10. YMDDYGIAD AFREOLUS MEWN CYFARFODYDD

- a. Ni chaiff unrhyw un rwystro'r gwaith o gyflawni busnes mewn cyfarfod nac ymddwyn yn dramgwyddus neu'n amhriodol. Os anwybyddir y rheol sefydlog hon bydd cadeirydd y cyfarfod yn gofyn i'r fath berson i gymedroli neu wella ei ymddygiad / hymddygiad.
- b. Os bydd rhywun yn anwybyddu cais cadeirydd y cyfarfod i gymedroli neu wella ei ymddygiad / hymddygiad, gall unrhyw gynghorydd neu gadeirydd y cyfarfod gynnig y dylid gwrthod clywed y fath berson yn hwy neu y dylid ei eithrio / heithrio o'r cyfarfod a bydd y cynigiad, os caiff ei eilio, yn cael ei roi i bleidlais yn syth heb drafodaeth.
- c. Os anwybyddir penderfyniad a wnaed dan reol sefydlog 10(b) gall cadeirydd y cyfarfod gymryd camau rhesymol eraill i adfer trefn neu hwyluso parhad y cyfarfod. Gall hynny gynnwys atal y cyfarfod dros dro neu gau'r cyfarfod.

11. PLEIDLEISIO AR BENODIADAU

- a. Pan enwebwyd mwy na dau berson ar gyfer swydd i'w llenwi gan y Cyngor ac os na chafodd yr un ohonynt fwyafrif clir o bleidleisiau o'u plaid, bydd enw'r person a chanddo'r nifer lleiaf o bleidleisiau yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr ac fe gynhelir pleidlais newydd. Aiff y broses hon yn ei blaen hyd nes y rhoddwyd mwyafrif y pleidleisiau o blaid un person. Os yw nifer y pleidleisiau'n gyfartal gellir datrys y sefyllfa trwy bleidlais fwrw cadeirydd y cyfarfod.

12. CYNIGION Y MAE ANGEN RHYBUDD YSGRIFENEDIG I'R SWYDDOG PERIODOL AR EU CYFER

- a. Rhaid i gynigiad fod yn berthnasol i gyfrifoldebau'r cyfarfod y cyflwynir y cynigiad iddo ac yn ymwneud â gweithredu swyddogaethau, pwerau a dyletswyddau statudol y Cyngor neu'n ymwneud â mater sy'n affeithio ardal y Cyngor neu ei breswylwyr.
- b. Ni ellir gwneud unrhyw gynigiad mewn cyfarfod onid yw wedi ei

gynnwys yn yr agenda ac onid yw'r cyflwynydd wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig o'i eiriad i'r Swyddog Priodol o leiaf 6 diwrnod llawn cyn y cyfarfod. Ni fydd dyddiau llawn yn cynnwys diwrnod y rhybudd na diwrnod y cyfarfod.

- c. Cyn cynnwys cynigiad a gyflwynwyd yn unol â rheol sefydlog 9(b) ar yr agenda, gall y Swyddog Priodol gywiro unrhyw wallau gramadegol neu deipograffyddol amlwg yng ngeiriad y cynigiad.
- d. Os yw'r Swyddog Priodol yn credu nad yw geiriad y cynigiad a dderbyniwyd yn unol â rheol sefydlog 12(b) yn glir o ran ei ystyr, bydd y cynigiad yn cael ei wrthod nes bydd y cyflwynydd yn ei ailgyflwyno'n ysgrifenedig i'r Swyddog Priodol mewn ffurf eglur o leiaf 3 diwrnod cyn y cyfarfod.
- e. Os ystyrir fod geiriad neu destun cynigiad arfaethedig yn amhriodol, bydd y Swyddog Priodol yn ymgynghori â chadeirydd y cyfarfod arfaethedig neu, os yn addas, â'r cynghorwyr sydd wedi cynnull y cyfarfod, i ystyried a ddylid cynnwys neu wrthod cynnwys y cynigiad yn yr agenda.
- f. Bydd penderfyniad y Swyddog Priodol i gynnwys cynigiad ar yr agenda neu beidio yn derfynol.
- g. Cofnodir a rhoddir rhif i bob cynigiad a dderbynnir yn y drefn y'i derbyniwyd.
- h. Cofnodir pob cynigiad a'i wrthodwyd gan nodi esboniad y Swyddog Priodol paham y'i gwrthodwyd.

13. CYNIGIADAU NAD OES ANGEN RHYBUDD YSGRIFENEDIG AR EU CYFER

- a. Gellir gwneud cynigiadau mewn cyfarfod ar gyfer y materion canlynol heb rybudd ysgrifenedig i'r Swyddog Priodol:
 - i. i gywiro camgymeriad yng nghofnodion y cyfarfod blaenorol;
 - ii. i benderfynu mater sydd wedi ei gynnwys yn yr agenda;

- iii. i gynnig symud i bleidlais;
- iv. i ohirio trafodaeth ar gynigiad;
- v. i gyfeirio cynigiad i bwyllgor neu is-bwyllgor penodol;
- vi. i benodi person i lywyddu mewn cyfarfod;
- vii. i newid trefn materion ar yr agenda;
- viii. i symud at y mater nesaf ar yr agenda;
- ix. i wneud cais am adroddiad ysgrifenedig;
- x. i benodi pwyllgor neu is-bwyllgor a'u haelodau;
- xi. i ymestyn y cyfyngiadau amser ar areithiau;
- xii. i eithrio'r wasg a'r cyhoedd o gyfarfod mewn perthynas â gwybodaeth cyfrinachol neu wybodaeth sy'n niweidiol i'r budd cyhoeddus;
- xiii. i beidio clywed mwy gan gynghorydd neu aelod o'r cyhoedd;
- xiv. i eithrio cynghorydd neu aelod o'r cyhoedd oherwydd ymddygiad afreolus;
- xv. i atal y cyfarfod dros dro;
- xvi. i atal rheol sefydlog benodol (oni bai ei bod yn adlewyrchu gofynion gorfodol statudol neu gyfreithiol);
- xvii. i ohirio'r cyfarfod; neu
- xviii. i gau'r cyfarfod.

14. RHEOLI GWYBODAETH

Gweler hefyd rheol sefydlog 22

- a. **Bydd y Cyngor yn mabwysiadu a chadw dan adolygiad fesurau cyfundrefnol technegol ar gyfer diogelu gwybodaeth (yn cynnwys data personol) sydd yn ei feddiant ar ffurf bapur neu electronig. Bydd y fath drefniadau'n cynnwys modd penderfynu pwy sy'n medru cael mynediad i ddata personol ac amgryptio**

data personol.

- b. **Bydd y Cyngor yn mabwysiadu a chadw dan adolygiad bolisiau ar gyfer cadw a dinistrio'n ddiogel yr holl wybodaeth (yn cynnwys data personol) sydd yn ei feddiant ar ffurf bapur neu electronig. Bydd polisi dal gwybodaeth y Cyngor yn cadarnhau hyd y cyfnod y bydd gwybodaeth (yn cynnwys data personol) yn cael ei gadw neu, os nad yw hynny'n bosibl, y canllawiau a ddefnyddir i bennu'r cyfnod hwnnw (e.e. y Ddeddf Cyfyngiadau Achosion 1980).**
- c. **Ni fydd yr agenda na'r papurau cefndir i'r agenda na chofnodion cyfarfod yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu ddata personol neu'n ei danseilio mewn rhyw fodd arall oni bai fod cyfiawnhad cyfreithiol.**
- d. **Ni fydd cynghorwyr, staff, contractwyr nac asiantau'r Cyngor yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu ddata personol oni bai fod cyfiawnhad cyfreithiol.**

15. COFNODION DRAFFT

- a. Os yw cofnodion drafft cyfarfod blaenorol wedi cael eu cyflwyno i gynghorwyr gyda'r agenda ar gyfer y cyfarfod fydd yn cymeradwyo'u cywirdeb, fe'u derbynnir fel rhai a ddarllenwyd.
- b. Ni thrafodir cofnodion drafft cyfarfod blaenorol ac eithrio o ran eu cywirdeb. Cyflwynir cynigiad i gywiro anghywirdeb yn y cofnodion yn unol â rheol sefydlog 13(a)(i).
- c. Bydd cywirdeb cofnodion drafft, gan gynnwys unrhyw wellian(t)nau iddynt, yn cael ei gadarnhau trwy benderfyniad ac fe'u llofnodir gan gadeirydd y cyfarfod ac fe safant yn gofnod cywir o'r cyfarfod y mae'r cofnodion yn ymwneud ag ef.
- d. Os nad yw cadeirydd y cyfarfod yn credu fod y cofnodion yn record cywir o'r cyfarfod y maent yn ymwneud ag ef, bydd yn llofnodi'r cofnodion ac yn cynnwys paragraff fel a ganlyn neu i'r un perwyl:

“ Nid yw cadeirydd y cyfarfod hwn yn credu fod y cofnodion o'r cyfarfod () a gynhaliwyd ar y [dyddiad] yn gofnod cywir o ran ()

ond ni chefnogwyd ei f(b)arn gan y cyfarfod ac fe gadarnhawyd y cofnodion yn record gywir o'r hyn a drafodwyd."

- e. Yn amodol ar reol sefydlog 21(a) ac yn dilyn penderfyniad sy'n cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod, fe ddinistrir cofnodion drafft neu recordiadau o'r cyfarfod y mae cofnodion ohono a gymeradwywyd mewn bodolaeth.
- f. Darperir cofnodion drafft a chofnodion a gymeradwywyd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

16. COD YMDDYGIAD A GOLLYNGIADAU

Gweler hefyd rheol sefydlog 4(p)

- a. **Bydd cynghorwyr ac eraill a chanddynt hawl i bleidleisio yn cadw a pharchu'r cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor.**
- b. Bydd pob cynghorydd neu berson a chanddo hawl i bleidleisio yn ymgymryd â hyfforddiant yn y cod ymddygiad o fewn chwe mis wedi cyflwyno ei ffurflen dderbyn swydd.
- c. **Cyflwynir ceisiadau am ollyngiad yn ysgrifenedig i bwyllgor safonau'r Cyngor Sir** cyn gynted â phosib cyn y cyfarfod y ceisir y gollyngiad mewn perthynas ag ef.

17. CWYNIION COD YMDDYGIAD

- a. Yn amodol ar reol sefydlog 14, os hysbysir y Swyddog Priodol gan y Cyngor Sir ei fod yn delio a honiad fod cynghorydd neu berson a ganddo hawliau pleidleisio wedi torri cod ymddygiad y Cyngor, rhaid i'r Swyddog Priodol adrodd hyn i'r Cyngor.
- b. Pan fydd hysbysiad dan reol sefydlog 17(a) yn ymwneud â honiad a wnaed gan y Swyddog Priodol, rhaid i'r Swyddog Priodol hysbysu'r Maer o'r faith, a bydd y Maer yn enwebu aelod arall o'r staff i ymgymryd â dyletswyddau'r Swyddog Priodol mewn perthynas â'r honiad hyd nes ei fod wedi cael ei benderfynu.

- c. Gall y Cyngor:
- i. ddarparu gwybodaeth neu dystiolaeth pan fydd ei ddatgelu'n angenrheidiol er mwyn archwilio i'r honiad neu'n ofyniad cyfreithiol;
 - ii. geisio gwybodaeth berthnasol i'r honiad gan y person neu fudiad sydd a chyfrifoldeb statudol i archwilio'r mater;
 - iii. ryddarbed y cynghorydd neu berson a chanddo hawliau pleidleisio gogyfer a'i gostau cyfreithiol yn gysylltiedig â'r honiad a bydd y fath ryddarbed yn amodol ar gydsyniad cyfarfod y Cyngor.

18. CYFRIFION A DATGANIADAU CYFRIFO

- a. Bydd "arferion priodol" yn y rheolau sefydlog yn cyfeirio at y fersiwn ddiweddaraf o "Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cynghorau Lleol yng Nghymru - Canllaw i Ymarferwyr."
- b. Awdurdoddir a chymeradwyir pob taliad gan y Cyngor yn unol â'r gyfraith, arferion priodol a rheoliadau ariannol y Cyngor.
- c. Cyn gynted â phosib wedi diwedd y flwyddyn ariannol ar y 31ain o Fawrth, bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn darparu;
 - i. datganiad er gwybodaeth i bob cynghorydd yn crynhoi derbynebion a thaliadau (neu incwm a gwariant) y Cyngor am y chwarter olaf o'r flwyddyn hyd at ddyddiad y datganiad; a'r
 - ii. datganiadau cyfrifo am y flwyddyn i'r Cyngor i'w hystyried a'u cymeradwyo ar ffurf cymal 1 o ffurflen flynyddol llywodraethu ac atebolrwydd yn unol ac arferion priodol.
- d. Darperir datganiadau cyfrifo diwedd y flwyddyn yn unol ag arferion priodol ac yn y ffurf a bennir gan y Cyngor (derbynebion a thaliadau neu incwm a gwariant) am y flwyddyn hyd at y 31ain o Fawrth. Cyflwynir ffurflen ddrafft llywodraethu ac atebolrwydd wedi ei chwblhau i bob cynghorydd o leiaf 14 diwrnod cyn y disgwylir i'r Cyngor i'w gymeradwyo. Cyflwynir ffurflen llywodraethu ac atebolrwydd y Cyngor, sy'n ddarostyngedig i archwiliad allanol, gan gynnwys y datganiad llywodraethu blynyddol, i'r Cyngor i gael ei

ystyried a'i gymeradwyo cyn y 30ain o Fehefin.

19. RHEOLAETHAU ARIANNOL A CHAFFAEL

- a. Bydd y Cyngor yn ystyried a chymeradwyo rheoliadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, fydd yn cynnwys trefniadau manwl ar gyfer y canlynol:
- i. cadw cofnodion cyfrifo a systemau rheolaeth fewnol;
 - ii. asesu a rheoli'r risgiau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu;
 - iii. gwaith yr archwilydd mewnol annibynnol yn unol ag arferion priodol a derbyn adroddiadau rheolaidd oddi wrth yr archwilydd mewnol y bydd eu hangen o leiaf unwaith y flwyddyn;
 - iv. archwilio a chopio cyfrifon a / neu archebion taliadau'r Cyngor gan gynghorwyr ac etholwyr lleol; ac
 - v. yn amodol ar reolau sefydlog 19(e) ac (f), pennu a ellid eithrio contractau o broses tendro neu gamau caffael ar y sail fod gwerth tybiedig y contract yn llai na [£25,000] neu ar sail amgylchiadau arbennig.
- b. Bydd rheoliadau ariannol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac o leiaf unwaith y flwyddyn o safbwynt eu haddasrwydd at eu pwrpas.
- c. Yn amodol ar ofynion ychwanegol yn rheoliadau ariannol y Cyngor, bydd y broses dendro ar gyfer contract i gyflenwi nwyddau, deunyddiau a gwasanaethau neu i gyflawni gwaith yn cynnwys y camau canlynol o leiaf:
- i. llunio manyleb o'r nwyddau, deunyddiau , gwasanaethau a'r gwaith;
 - ii. llunio gwahoddiad i dendro a fydd yn cadarnhau (i) manylebau'r Cyngor (ii) yr amser, y dyddiad a'r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno tendrau (iii) dyddiad ymateb ysgrifenedig y Cyngor i'r tendr a'r (iv) waharddiad ar gontractwyr arfaethedig

rhag cysylltu â chynghorwyr neu staff neu i hybu neu gefnogi eu tendr trwy ddulliau nad ydynt o fewn y broses ragnodedig;

- iii. hysbysir y gwahoddiad i dendro ar hysbysfwrdd y Cyngor, ar ei wefan, ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac mewn unrhyw ddull arall sydd yn addas;
- iv. cyflwynir tendrau yn ysgrifenedig mewn amlen wedi'i marcio a'i selio a'i chyfeirio at y Swyddog Priodol;
- v. agorir y tendrau gan y Swyddog Priodol ym mhresenoldeb un cynghorydd o leiaf wedi'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau;
- vi. cyflwynir adroddiad am dendrau i gyfarfod priodol y Cyngor neu bwyllgor neu is-bwyllgor a chanddo gyfrifoldeb dirprwyedig er mwyn eu hystyried;

d. Nid oes raid i'r Cyngor, na phwyllgor nac is-bwyllgor a chanddo gyfrifoldeb dirprwyedig i ystyried tendrau, dderbyn y tendr isaf.

e. **Bydd pob contract cyhoeddus a reoleiddir gan y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ac iddo werth tybiedig dros £181,302 yn achos contract am wasanaeth cyhoeddus neu gontract cyflenwi, neu dros £4,451,413 yn achos â chontract gweithiau cyhoeddus (neu drothwyon eraill a bennir gan y Comisiwn Ewropeaidd bob dwy flynedd ac a gyhoeddir yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (CSUE)) yn cydymffurfio â'r camau caffael perthnasol a gofynion eraill Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 sydd yn cynnwys hysbysebu'r cyfle contract ar wefan chwiliwr contract ac yn y CSUE.**

f. **Bydd contract cyhoeddus sy'n ymwneud â chyflenwi nwy, gwres, trydan, dŵr yfed, gwasanaethau trafnidiaeth, neu wasanaethau post i'r cyhoedd; neu ddarparu porthladd neu faes awyr; neu archwilio neu gloddio am nwy, olew neu danwydd solet ac iddo werth tybiedig dros £363,424 yn achos contract i gyflenwi, dylunio neu am wasanaethau; neu dros £820,370 yn achos contract am wasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau penodol eraill (neu drothwyon eraill a bennir gan y Comisiwn Ewropeaidd bob dwy flynedd ac a gyhoeddir yn y CSUE) yn cydymffurfio â'r camau caffael perthnasol a gofynion eraill Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.**

20. YMDRIN Â MATERION STAFF

- a. Bydd mater sy'n bersonol i aelod o'r staff ac sydd dan ystyriaeth gan gyfarfod y Cyngor neu bwyllgor neu is-bwyllgor yn ddarostyngedig i reol sefydlog 14.
- b. Yn amodol ar bolisi'r Cyngor ar absenoldebau o'r gwaith, bydd gweithiwr lefel uchaf y Cyngor yn hysbysu'r Maer, neu os nad yw ef / hi ar gael, y Dirprwy Faer am unrhyw absenoldeb a ddigwyddodd oherwydd salwch neu am reswm arall a bydd y person hwnnw yn adrodd am y cyfryw absenoldeb i'r Pwyllgor Gweinyddiaeth yn ei gyfarfod nesaf.
- c. Yn dilyn penderfyniad i wneud hynny, bydd y Maer, neu yn ei (h)absenoldeb y Dirprwy Faer, yn cynnal adolygiad o berfformiad a gwerthusiad blynyddol o waith aelodau o'r staff. Cyflwynir adroddiad ysgrifenedig o'r adolygiadau a'r gwerthusiad i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gweinyddiaeth trwy benderfyniad.
- d. Yn amodol ar bolisi'r Cyngor ar drafod cwynion, bydd gweithiwr lefel uchaf y Cyngor (neu aelodau eraill o'r staff) yn cysylltu â'r Maer, neu os nad yw ef / hi ar gael, y Dirprwy Faer ynghylch cwyn ffurfiol neu anffurfiol a bydd y mater yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gweinyddiaeth i'w symud ymlaen trwy benderfyniad yn ei gyfarfod nesaf.
- e. Yn amodol ar bolisi'r Cyngor ar drafod cwynion, os bydd cwyn ffurfiol neu anffurfiol a gyflwynir gan aelod o'r staff yn ymwneud â'r Maer neu'r Dirprwy Faer, bydd hyn yn cael ei gyfathrebu i aelod arall o'r Pwyllgor Gweinyddiaeth a bydd yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gweinyddiaeth i gael ei symud ymlaen trwy benderfyniad.
- f. Bydd unrhyw bobl sy'n gyfrifol yn gyfan gwbl neu'n rhannol am reoli staff y Cyngor yn cadw'n gyfrinachol yr holl gofnodion ysgrifenedig o bob cyfarfod sy'n ymwneud â pherfformiad, galluoedd a materion cwyn neu ddisgyblaeth y staff.
- g. Yn unol â rheol sefydlog 14(a) bydd unrhyw un a chanddo gyfrifoldebau rheoli llinell yr hawl i gael mynediad at y cofnodion staff y cyfeiriwyd atynt yn rheol sefydlog 20(f).

21. CYFRIFOLDEBAU DARPARU GWYBODAETH

Gweler hefyd rheol sefydlog 22

- a. Yn unol â'r ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth, bydd y Cyngor yn cyhoeddi gwybodaeth yn ôl ei gynllun cyhoeddi ac yn ymateb i geisiadau am wybodaeth sydd yn ei feddiant.

22. CYFRIFOLDEBAU DAN DDEDDFWRIAETH GWARCHOD DATA

(Nid yw'r rhestr isod yn un gyfyngedig)

Gweler hefyd rheol sefydlog 14

- a. Gall y Cyngor benodi Swyddog Gwarchod Data.
- b. Bydd y Cyngor yn sicrhau fod ganddo bolisiau a gweithdrefnau ar gyfer ymateb i unigolyn a fyn ymarfer ei hawliau statudol mewn perthynas a'i ddata personol.
- c. Bydd y Cyngor yn sicrhau fod ganddo bolisi ysgrifenedig ar gyfer ymateb i ac i reoli tor rheol data personol.
- d. Bydd y Cyngor yn cadw cofnod o bob tor rheol data personol fydd yn cynnwys ffeithiau'r dor rheol data personol, ei effeithiau a'r camau adferol a gymrwyd.
- e. Bydd y Cyngor yn sicrhau fod gwybodaeth a gyflëir yn ei hysbysiad(au) preifatrwydd yn gyfredol ac ar gael mewn ffurf sy'n hawdd cael mynediad iddo.
- f. Bydd y Cyngor yn cadw cofnod ysgrifenedig o'i weithgareddau prosesu.

23. CYSYLLTIADAU GYDA'R WASG / CYFRYNGAU

- a. Bydd y Maer, neu'r Dirprwy Faer os na fydd y Maer ar gael, yn delio a phob cais wrth y wasg neu gyfryngau eraill am ddatganiad llafar neu ysgrifenedig gan y Cyngor ar ei safbwynt ffurfiol. Gall cyfarfod y Cyngor llawn, y Maer, neu yn ei(h)absenoldeb y Dirprwy Faer, ddarparu datganiad ysgrifenedig y gall y Clerc ei ryddhau i'r cyfryngau ar eu cais.
- b. Dylai cynghorwyr unigol fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan y cod ymddygiad wrth ymateb i geisiadau gan y cyfryngau a dylent sicrhau eu bod yn gwneud yn eglur p'un ai ydynt yn siarad ar ran y Cyngor ac yn cyfleu'r safbwynt a gytunwyd ganddo neu beidio.

24. CWBLHAU A SELIO GWEITHREDOEDD CYFREITHIOL

Gweler hefyd rheol sefydlog 2(b)(xi)

- a. Ni chaiff gweithred gyfreithiol ei chwblhau ar ran y Cyngor oni chafodd hynny ei awdurdodi trwy benderfyniad.

Yn amodol ar reol sefydlog 24(a), gall unrhyw ddau gynghorydd lofnodi, ar ran y Cyngor, unrhyw weithred sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a bydd y Swyddog Priodol yn tystio'u llofnodion.

25. CYFATHREBU A CHYNGHORWYR SIR

- a. Danfonir gwahoddiad i fynychu cyfarfod y Cyngor, ynghyd ag agenda, at y Cynghorw(y)r Sir ward sy'n cynrychioli ardal y Cyngor.
- b. Oni bai fod y Cyngor yn penderfynu fel arall, danfonir copi o bob llythyr a ddanfonir at y Cyngor Sir i'r Cynghorw(y)r Sir ward sy'n cynrychioli ardal y Cyngor.

26. CYFYNGIADAU AR WEITHGAREDDAU CYNGHORWYR

- a. Oni awdurdodir hynny'n briodol ni fydd unrhyw gynghorydd yn:
 - i. archwilio unrhyw dir a / neu adeiladau y mae gan y Cyngor hawl neu ddyletswydd i'w archwilio; nac yn
 - ii. rhoi gorchmynion neu gyfarwyddiadau.